Promoting improvements in policing to make everyone safer

# Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu Dyfed-Powys – Trawsgrifiad

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn trafod rhai o'r pryderon a godwyd gennym yn ein hadroddiadau arolygiad; fodd bynnag rwyf yn bryderus ynghylch llawer o agweddau ar ei berfformiad cyffredinol.

Ers fy asesiad llynedd, mae'r llu wedi cyflwyno ymagwedd newydd tuag at drafod galwadau am gymorth sy'n ymgorffori asesiad o amgylchiadau pob digwyddiad o ran y bygythiad a risg o niwed tebygol i'r rhai hynny sy'n gysylltiedig. Mae hyn wedi arwain at welliant calonogol yn yr ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau sy'n cynnwys pobl hyglwyf.

Fodd bynnag, nid yw'r llu wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon wrth benderfynu wedyn pwy ddylai fynychu digwyddiadau: anfonir swyddogion rheng flaen i ymchwilio pryd bynnag y cofnodir trosedd, hyd yn oed pan yw'r drosedd yn cyflwyno risg isel o niwed. Hefyd rwyf yn poeni y gallai cyfleoedd i gefnogi'r rhai hynny sy'n fwyaf hyglwyf gael eu colli.

Mae gan Ddyfed-Powys ymagwedd dda tuag at atal troseddu ac mae wedi neilltuo digon o adnoddau i blismona cymdogaeth, ac mae'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Hefyd mae'r llu'n dda o ran mynd ati o ddifrif i reoli troseddwyr mynych .

Mae'r llu'n tynnu ar amrediad o wybodaeth i ddeall y bygythiadau cyfredol a wynebir gan bobl Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae angen iddo wneud rhagor i ddeall galwadau llai amlwg am ei wasanaethau, megis troseddu ar y rhyngrwyd, a sut y gallai galw arwain at newid yn y dyfodol.

Er bod gan Ddyfed-Powys hanes da o gyflawni arbedion ariannol, rwyf yn poeni nad oes ganddo o hyd ddealltwriaeth lawn o gostau neu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir trwy ei fodel gweithredu presennol. Hefyd, nid oes gan y llu ddealltwriaeth gadarn o sgiliau a galluoedd ei weithlu.

Rwyf yn fodlon bod gan Ddyfed-Powys rywfaint o ddealltwriaeth o fygythiadau i uniondeb y sefydliad a'i fod yn ymgymryd â rhywfaint o asesu o lygredd posibl. Fodd bynnag, mae rhai bylchau yn ei ddealltwriaeth o'r graddau mae llygredd yn cael effaith ar y sefydliad.

Roeddwn yn falch bod ein harolygwyr wedi canfod bod y gweithlu'n deall y pwysigrwydd o drin pobl â thegwch a pharch. Fodd bynnag, mae angen i'r llu wella'r ffordd mae'n ceisio adborth gan y bobl mae'n eu gwasanaethu.